

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
Cynllun Cydraddoldeb Strategol
Adroddiad Blynyddol Ebrill 2015 - Mawrth 2016

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg. Os ydych yn darllen y fersiwn arlein, defnyddiwch y ddolen "Saesneg" ar ochr dde'r bar uchaf. Os ydych yn darllen copi papur, defnyddiwch y manylion cyswllt isod i gael copi o'r fersiwn Saesneg os gwelwch yn dda.

This document is available in English. If you are reading the online version, please use the "English" link on the right hand side of the top bar. If you are reading a paper copy, please use the contact details below to obtain an English version.

Ffuriau Hygyrch

Bydd y ddogfen hon a'r dogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ffurfiau safonol Microsoft Word a PDF mewn ffont Arial maint 12. Bydd fformatau hygyrch eraill, gan gynnwys print bras, Braille, DVD Iaith Arwyddion Prydain, fersiwn hawdd ei ddarllen, fersiwn sain, fersiwn electronig a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

Tîm Amrywiaeth Cymunedol
Yr Adran Lles a Datblygu Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam
16 Stryt yr Arglwydd
Wreccsam
LL11 1LG
Ffôn: 01978 292261

E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk



INVESTOR IN PEOPLE
BUDDSODDWR MEWN POBL

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Adroddiad Blynyddol 2015-16

Cynnwys:

Adain		Rhif Tudalen
	Rhagair	3
1	Crynodeb Gweithredol	5
2	Cyflwyniad a chefnidir	6
3	Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010	10
4	Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011	13
5	Ymgysylltu	13
6	Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol	15
7	Gweithwyr Cyngor Wrecsam	15
8	Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	16
9	Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth	20
10	Caffael	22
11	Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2015-16	22
12	<u>Atodiadau</u>	
	1. Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	24
	2. Gwybodaeth Cydraddoldeb	34
	3. Rhestr Termiau	40

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Adroddiad Blynyddol 2015-16

Rhagair:

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Cyngor 2012-16: http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/stategic_equality_plan_2012-16.pdf

Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016. Mae'r adroddiad yn egluro:

- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- sut y mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau penodol o dan Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011; a'r
- cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a chamau gweithredu cydraddoldeb a nodir yn y cynllun.

Mae'r Cyngor yn parhau i ail-lunio ei wasanaethau niferus oherwydd y cyfyngiadau a osodir gan y toriadau yn y gyllideb i lywodraeth leol. Mae hyn yn her sylweddol i ni. Rwy'n falch mai sylfaen ein dull o ymdrin â'r toriadau hyn yw blaenoriaethu'r rhai diamddiffyn. Mae ein hymroddiad i'r Broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'n galluogi i liniaru unrhyw effeithiau negyddol cymaint ag y gallwn.

Canolbwynt allweddol i ni yn ystod 2015-16 oedd:

- prif ffrydio'r rhaglen gydraddoldeb ar draws y cyngor;
- gosod y gwaith o gyflawni amcanion cydraddoldeb corfforaethol yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol;
- rhannu gwybodaeth cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y sefydliad;
- Cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a
- Pharhau i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid.

Rydym wedi gweithredu'r ymrwymadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol blaenorol (2014-15):

- Wedi parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;
- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol a sicrhau ffocws ar bobl ddiamddiffyn trwy hyfforddiant a chyngor;
- Ymgynghori gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-20) i'w weithredu o fis Ebrill 2016;
- Gweithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i archwiliad sicrwydd ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb blynyddol.
- Adolygu cylch gorchwyl Grŵp Cydraddoldeb Ail-lunio Gwasanaethau i ffurfio Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb;
- Gwella cydlyniad gweithgareddau i drechu rhagfarn a meithrin perthnasau da drwy is-grŵp y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, Bwrdd Cyflawni Partneriaeth 3: Mae Pobl yn Ddiogel ac yn cael eu Cynnwys;
- Adolygu a chyhoeddi'r Canllaw Gwrth-fwlio ar gyfer ysgolion, pobl ifanc a rhieni / gofalwyr; a

- Datblygu a chyhoeddi'r Canllaw Trawsrywiol ar gyfer ysgolion, pobl ifanc a rhieni / gofalwyr.

Rwyf yn falch ein bod wedi llwyddo i gyflawni cynnydd, diolch i ymrwymiad a gwaith caled ar y cyd gan holl adrannau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n iawn cydnabod hefyd bod meysydd y gellid parhau i'w gwella os ydym am fynd i'r afael o ddifrif â'r anghydraddoldebau a nodir ac a wynebir gan nifer o bobl ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw sicrhau bod Wrecsam a'i phobl yn derbyn cefnogaeth ac yn cael eu galluogi i wireddu eu potensial ac i ffynnu. Trwy'r gwaith rydym yn ei wneud i ddileu gwahaniaethu ac anghydraddoldeb ac i feithrin perthynas dda â'r gymuned rydym yn ceisio mynd ati'n rhagweithiol i droi'r weledigaeth honno yn realiti i bawb yn y Fwrdeistref Sirol.

**Y Cynghorydd Ronnie Prince, Aelod Arweiniol dros Bobl -
Gwasanaethau Ieuencid a Gwrth Diodi**

1. Crynodeb Gweithredol:

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gyflawni anghenion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sef:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Meithrin perthynas dda.

Hefyd mae'n rhaid i ni sicrhau bod gennym y prosesau cywir ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb a monitro effaith ein gwaith ar gydraddoldeb.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol [CCS] 2012-16

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/stategic_equality_plan_2012-16.pdf yn nodi'r nodau ac amcanion cydraddoldeb yr ydym wedi'u dynodi fel rhai sydd yn bwysig iawn i bobl Wrecsam. Rydym wedi dynodi pobl allweddol yn y Cyngor gan gynnwys yr Aelod Arweiniol Etholedig dros Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Penaethiaid Adrannau a swyddogion Gwella Cydraddoldeb, i'n cynorthwyo i arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun ac i sicrhau ein bod yn datblygu diwylliant o wella parhaus.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod 2015-16 wrth weithredu'r CCS, datblygu'r camau gweithredu ychwanegol a ddisgrifiwyd yn yr adroddiad blaenorol a'r prosesau y gwnaethom eu rhoi ar waith i'n cynorthwyo.

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu Cynllun Gweithredu CCS 2015-16; Dyletswydd Cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru).

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w wneud. Yn ogystal â'r amcanion a nodwyd eisoes yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2016-20 byddwn hefyd yn symud ymlaen â'r materion canlynol yn 2016-17:

- Parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;
- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol;
- Cefnogi integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth i Gynllun Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Wrecsam;
- Cefnogi a galluogi ffoaduriaid o Syria i ailsefydlu yn Wrecsam fel rhan o gefnogaeth dyngarol y Cyngor ar gyfer pobl mewn angen eithafol;
- Gwella cydlyniant rhanbarthol y gweithgareddau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a meithrin perthnasau da mewn perthynas ag atal terfysgaeth a Chaethwasiaeth Modern;
- Gwella ansawdd Monitro Cydraddoldeb;
- Parhau i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Ymgynghori gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-20) i'w weithredu o fis Ebrill 2016;
- Gweithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i archwiliad sicrwydd ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb blynyddol;
- Adolygu fformatau adroddiadau Pwyllgorau Trwyddedu a Chynllunio; a
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu i'r holl Bwyllgorau Craffu.

Mae mwy o fanylion yn y prif adroddiad. Os hoffech gyflwyno sylwadau arno cysylltwch â ni:

2. Cyflwyniad a chefnidir:

Diffinnir cydraddoldeb fel a ganlyn:

‘Cymdeithas gyfartal sy’n hyrwyddo ac yn amddiffyn rhyddid cyfartal, gwirioneddol a chyfle i fyw yn y modd y byddai pobl yn ei werthfawrogi a’i ddewis, er mwyn i bawb gael ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion, sefyllfaoedd a nodau pobl, ac yn dileu’r rhwystrau sy’n cyfyngu ar yr hyn y gall pobl ei wneud a’i fod.’
[CLILC, Fframwaith Gwella Cydraddoldeb Cymru, 2012]

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd nifer o wahanol ddeddfwriaethau i greu un fframwaith cyfreithiol er mwyn ymdrin â gwahaniaethu ac anfantais yn fwy effeithiol. Mae’r Ddeddf yn nodi grwpiau o bobl yr ystyrir bod ganddynt ‘nodweddion a ddiogelir’:

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ei ddisodli ar 30 Mawrth 2016 gyda Safonau’r Gymraeg. Mae’r rhain yn cael eu cyflwyno fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda’r diben o osod lefel gyson o wasanaeth y gall siaradwyr Gymraeg ddisgwyl ei gael yng Nghymru. Mae’r rhain yn ffurfio rhan bwysig o waith cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor a rhoddir gwybod amdanynt ar wahân. Mae manylion llawn ar gael yn:

http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm

Ym mis Ebrill 2011 gosodwyd ‘dyletswydd gyffredinol’ statudol ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr i weithredu’r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy’n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt.

Hefyd, mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y Cyngor ddyletswyddau cyfreithiol penodol a nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011:

- Cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob 4 blynedd;
- Gweithgareddau i ymgysylltu a chynnwys grwpiau sydd â ‘nodweddion a ddiogelir’;
- Sicrhau bod yr holl ddeunydd a gyhoeddir yn hygyrch;
- Asesu effaith polisiâu a chynlluniau perthnasol;
- Hyfforddiant a chasglu gwybodaeth am gyflogaeth;
- Hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o’r Ddeddf Cydraddoldeb ar draws y sefydliad;
- Ymdrin â gwahaniaethau cyflog annheg;
- Defnyddio arferion caffael i gyfrannu at gyflawni amcanion cydraddoldeb; ac

- Adolygu'r cynnydd a wnaed i weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Wrecsam (CCS) 2012-16:

Lluniodd y Cyngor ei CCS yn 2011 ar ôl ymgysylltu â grwpiau lleol a rhanbarthol a sefydliadau a oedd yn cynrychioli pobl a chanddynt amrediad eang o nodweddion a ddiogelir. Fe wnaeth hyn ein galluogi i nodi amcanion cydraddoldeb lleol. Fe wnaethom hefyd weithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill ar draws Gogledd Cymru i nodi amcanion cydraddoldeb rhanbarthol. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i'w nodi yn cael ei egluro yn y CCS. <http://www.wrexham.gov.uk/english/council/equality/equality.htm>

Roedd tystiolaeth i ddarparu yn erbyn yr amcanion hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) (amcanion cydraddoldeb lleol a rhanbarthol), Strategaeth Cydlyniad Cymunedol ac mewn Cynlluniau Gwasanaeth adrannol. Roedd Adolygiad Cyfoedion Llywodraeth Leol Cymru o'r dull hwn yn 2012 wedi cyflwyno nifer o argymhellion gan gynnwys y dylid uno'r gwaith mewn un dogfen oedd yn ategu darpariaeth Cynllun y Cyngor ac yn gysylltiedig â chynlluniau gwasanaethau adrannol yn uniongyrchol. Bwriad hyn oedd cynorthwyo'r ddarpariaeth a monitro. Derbyniwyd yr argymhelliad ac fe unwyd y cynlluniau gweithredu yn ystod 2013. Mae'r tabl isod yn arddangos sut y mae'r amcanion cydraddoldeb yn sail i holl waith Cynllun y Cyngor. Yn ogystal â hyn gallwn arddangos ein cyfraniad corfforaethol i Gynllun Integredig Sengl y Fwrdeistref Sirol: http://www.wrexhamlsb.org/assets/pdf/lbsb_plan_2013-2024.pdf

Tabl 1: Amcanion cydraddoldeb sy'n sail i Gynllun y Cyngor a'r Cynllun Integredig Sengl.

Cynllun Integredig Sengl	Themâu Cynllun y Cyngor	Cynllun y Cyngor - canlyniadau Blaenoriaeth	Amcanion Cydraddoldeb (cyfun)
<p>Gwneud Wrecsam yn lle gydag economi gref, gwydn a chyfrifol</p> <p>Gwneud Wrecsam yn lle gall pobl fyw yn annibynnol, yn iach ac yn egniol.</p> <p>Gwneud Wrecsam yn lle diogel a lle mae pawb yn teimlo wedi'u cynnwys.</p>	Yr Economi	Mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma Mae busnesau yn gallu sefydlu a thyfu yma Mae pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau	1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a thâl ar gyfer rhyw a nodweddion eraill a ddiogelir a chynllunio gweithredoedd fel bo'n briodol
	Pobl	Mae gan blant a phobl ifanc ddyheadau, ac maent yn gallu dysgu a gwireddu eu potensial. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel Mae pawb yn gallu gwneud dewisiadau iach Mae holl bobl hŷn diamddiffyn yn ddiogel, â'r iechyd gorau posibl, annibyniaeth a lles Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hybu a'i chefnogi	2. Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd
			3. Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwyaf posibl i wireddu potensial unigolion
			4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol
			5. Mae pobl yn hyderus yn adrodd am densiynau cymunedol
			6. Hyrwyddo cysylltiadau da o fewn a rhwng gwahanol gymunedau
	7. Lleihau anghydraddoldebau o ran Cynrychiolaeth a Llais		
	Lle	Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl Lle amgylcheddol cyfrifol Cymunedau o gymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol Cymunedau wedi eu cysylltu'n dda	8. Lleihau anghydraddoldebau wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

Sefydliad	Cwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant	9. Mae'r sefydliad angen hyrwyddo cydraddoldeb o safbwynt canlyniadau i'w cyflawni
		10. Datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu a defnyddio data cydraddoldeb
		11. Gwella'r broses o fonitro gweithlu ar draws nodweddion a ddiogelir
		12. Adolygu a gwella polisiau cyflogaeth i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ac unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith
		13. Codi ymwybyddiaeth am ofynion o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad â chaffael i sicrhau bod contractau'n cael eu monitro
		14. Annog trafodaeth ar faterion cydraddoldeb mewn cyfarfodydd tîm ar gyfer pob maes gwasanaeth
		15. Staff y Sector Cyhoeddus, Gwirfoddol a Chymunedol yn deall pwy yw ein cymunedau a beth maent ei angen

Mae gwaith cyffredinol y Cyngor ar gydraddoldeb yn cael ei gefnogi gan y Safonau Iaith Gymraeg http://www.wrexham.gov.uk/english/council/documents/welsh_language_scheme.htm a'r Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer <http://www.internal.wrexham.gov.uk/MinutesData/ExBoard/Reports/hccs5814.pdf>

Arweinwyr, cefnogwyr a rhwydweithiau cydraddoldeb

Mae'r Aelod Arweiniol ar gyfer Pobl – Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrth Diodi wedi'i benodi i gymryd swyddogaeth arweiniol wrth hyrwyddo a goruchwyllo gwaith y Cyngor ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn 2015-16, darparwyd cymorth strategol gan y Pennaeth Gwasanaeth Lles a Datblygu Cymunedol. Mae'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu yn derbyn adroddiadau a diweddariadau monitro rheolaidd. Mae Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad diweddaru CCS blynyddol yn ffurfiol.

Mae'r tîm Amrywiaeth Cymunedol yn darparu cefnogaeth i brif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ledled y Cyngor gan gynnwys trwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb corfforaethol (GGC). Yn 2015-16, cafodd y grŵp hwn ei gefnogi gan y Pennaeth Gwasanaeth Lles a Datblygu Cymunedol.

Darpariaeth Fewnol a Phrosesau Monitro

Prosesau Darparu:

Mae darpariaeth y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei gyflawni drwy Gynlluniau Gwasanaeth adrannol. Bwriad hyn yw sicrhau bod monitro cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn system rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi gosod tair thema strategol allweddol:

- Pobl
- Yr Economi
- Lle

Mae'r rhain yn cael eu hategu gan bedwaredd thema gorfforaethol 'Trefnu – ymdrechu am ragoriaeth'. Mae'r themâu wedi'u disgrifio'n fanwl yng Nghynllun y Cyngor (2012-16) <http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Council-Plan-2014-17.pdf> ynghyd ag amrywiaeth o gamau gweithredu a mesuryddion canlyniadau sydd wedi'u dylunio i sicrhau bod pobl Wrecsam yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial ac i ffynnu. Fodd bynnag fe wyddwn fod rhai pobl, y rhai gyda 'nodweddion a ddiogelir' yn llai tebygol o brofi manteision y gwaith ac yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu. Trwy gysylltu ein CCS gyda'r Cynlluniau Gwasanaeth Adrannol gallwn nodi lle y gallai gwahaniaethu ddigwydd o ran darparu ein gwasanaethau a chymryd camau i liniaru hyn. Mae'r dull hwn yn ganolog i'n penderfyniad i brif-ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb fel rhan o bopeth a wnawn.

Monitro:

Bydd y dull diwygiedig hwn yn ein galluogi i gasglu data cydraddoldeb cyfranredol mewn perthynas â Chynllun y Cyngor a'r Cynllun Integredig Sengl. Mae trefniadau monitro adrannol yn cael eu gweithredu gan ddefnyddio egwyddorion Canlyniadau'n Cyfrif lle bo modd a lle bo'n briodol.

Pwrpas monitro cydraddoldeb yw derbyn gwell dealltwriaeth o bwy sy'n derbyn ein gwasanaethau a phwy nad ydynt yn derbyn yn ein gwasanaethau ynghyd â sefydlu'r hyn y mae unigolion ei angen gan ein gwasanaethau. Bydd yr wybodaeth hon yn ein cynorthwyo i dargedu adnoddau lle bo'u gwir angen; gan flaenoriaethu'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau.

Cynnydd a wnaed i weithredu'r Cynllun Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-16:

Mae camau gweithredu i ddarparu'r CCS wedi'u cynnwys yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol. Mae'r wybodaeth yn Atodiad 1 (tudalen 24) yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed mewn perthynas â phob un o'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol.

Craffu:

Ym mis Tachwedd 2015 ystyriodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau yr adroddiad diweddar ynglŷn â gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cyngor. Mae adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ym mis Medi 2016. Bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn ystyried Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ym mis Rhagfyr 2016.

Datblygu a gweithredu cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig 2016-20:

Cyflwynwyd adroddiadau yn ymwneud â datblygu CCS diwygiedig 2016-20 i'r Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad ac Adnoddau i'w hystyried a'u diwygio cyn y cytundeb terfynol yn y Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth 2016:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20
<http://www.wrexham.gov.uk/english/council/equality/equality.htm>
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 Cynllun Gweithredu 2016-17
http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/2016/strategic_equality_plan_action_plan.pdf

- Adroddiad Ymgynghori Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20
http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/equality/2016/strategic_equality_plan_consultation_report.pdf

3. Cynnydd yn erbyn dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010

Symudwyd ymlaen ag amrywiaeth o weithgareddau mewn perthynas â phob un o'r dyletswyddau cyffredinol yn ystod 2015-16. Roedd y rhain yn cynnwys:

Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth:

- Adroddwyd am 104 o droseddau casineb i Gefnogaeth i Ddiodefwyr yn ystod 2015-16, roedd y mwyafrif yn droseddau hiliol;
- Parhaodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol i fewnosod y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb trwy ddarparu hyfforddiant a hyrwyddo'r modiwl e-ddysgu;
- Hyrwyddodd y Cydlynnydd Cydlynad Cymunedol a'r tîm Amrywiaeth Cymunedol Wythnos Gwrth Droseddau Casineb 2015 gan gynnwys datblygu Cynllun a Phecyn Gwaith Cyfathrebu Rhanbarthol Gogledd Cymru a gweithredu cynllun arian grant yn Wrecsam ar ran Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd:
 - Siaradodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru [NWREN] â siopwyr i godi ymwybyddiaeth a gwella rhoi gwybod;
 - Gwnaeth Comunidade da Lingua Portuguesa Wrecsam waith codi ymwybyddiaeth o droseddau casineb yn y gymuned Portiwgaleg leol; a
 - Hyfforddodd y grŵp SOUL Shout Out United and Loud), Grŵp Hunan Eirioli Wrecsam ar gyfer Pobl gydag Anableddau Dysgu, aelodau o'u grŵp i ddarparu 24 o sesiynau gwella ymwybyddiaeth troseddau casineb i sefydliadau lleol sydd ynghlwm â'r Cynllun Mannau Diogel.
- Parhaodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol i gefnogi datblygiad dull rhanbarthol Gogledd Cymru i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern;
- Enillodd tair o ysgolion Wrecsam wobrau yng nghystadleuaeth flynyddol Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth [Cymru] gan gynnwys ennill 3 categori unigol a chydabyddiaeth fel Enillydd Cyffredinol;
- Cydnabod Diwrnod y Rhuban Gwyn i hyrwyddo ymwybyddiaeth am drais domestig a thrais rhywiol;
- Datblygodd y Cydlynnydd Cydlynu Cymunedol Rhanbarthol a'r tîm Amrywiaeth Cymunedol becyn gwaith rhanbarthol i alluogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddiwallu eu dyletswyddau cyfreithiol mewn perthynas â gwrth derfysgaeth;
- Darparodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol hyfforddiant ar:
 - Anffurfio Organau Rhyw Benywaidd [FGM];
 - Priodas dan orfod; a
 - Materion trawsrywiol.
- Hyrwyddodd y Cyngor y fideo ymgyrch Dweud Na i Ragfarn Oed.

Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau o bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt:

- Defnyddiodd yr Adran Gynllunio arian Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid i sicrhau bod datblygu Uwch Gynllun Canol y Dref yn cynnwys ymgysylltu yn uniongyrchol â phobl gyda chyfyngiadau symudedd;
- Datblygodd yr Adran Asedau a Datblygu Economaidd yr Addewid Cyflogwr i annog cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion yn y Fwrdeistref Sirol;
- Gweithiodd tîm Datblygu Cymunedol yr Adran Asedau a Datblygu Economaidd gyda'r tîm Caffael i gyflwyno Budd-dal Cymunedol fel gofyniad yng nghontractau'r Cyngor;
- Cefnogodd tîm Cefnogi Busnes yr Adran Asedau a Datblygu Economaidd 125 o gwmnïau i fabwysiadu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Roedd yr Adran Asedau a Datblygu Economaidd wedi gwella monitro digidol i gynnwys data demograffig ar bobl sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol y Cyngor sydd wedi galluogi marchnata wedi'i dargedu;
- Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion ac Atal a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc wedi datblygu Pwynt Mynediad Sengl [SPOA] i alluogi pob oedolyn i gael mynediad i wybodaeth am wasanaethau iechyd, lles a gofal dros y rhyngwyd;
- Y tîm Strategaeth Gweithlu a Datblygu, Gofal Cymdeithasol Oedolion ac Atal a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc oedd yr unig ddarparwr i gael arian Cyngor Gofal Cymru i ddarparu 'Arddangos sgiliau gofal i ofalwyr'. Hyfforddwyd 16 o staff gofal cymdeithasol ac 14 o ofalwyr;
- Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion ac Atal a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc wedi datblygu prosiect pilot i Asiantau Cymunedol i ddarparu cefnogaeth i bobl ddiameddiffyn mewn cymunedau;
- Atgyfnerthodd y tîm Caffael yr angen i gynnwys ystyriaeth cydraddoldeb ym mhob ymarfer caffael trwy ddiwygio'r broses gymeradwyo;
- Hyrwyddodd pob adran y modiwlau cydraddoldeb ar-lein fel hyfforddiant craidd i staff;
- Gweithredodd Gofal Cymdeithasol Oedolion ac Atal a Gofal Cymdeithasol Plant a Phobl Ifanc gynllun gweithredu i ddarparu Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Iaith Gymraeg;
- Cynhyrnodd y tîm Adnoddau Dynol wybodaeth 'Gwobrau' i esbonio'r amrywiaeth o fuddion sydd ar gael i staff yn ogystal â'n strwythur cyflog;
- Parhaodd Adnoddau Dynol i hyrwyddo'r arolwg gweithwyr i ganfod ac ymateb i faterion yn ymwneud â chydaddoldeb;
- Cynhaliodd yr adran Adnoddau Dynol ddigwyddiad Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, gyda threfniadau ar gyfer staff nad ydynt yn gallu gadael eu gweithle;
- Adolygodd a hyrwyddodd y Gwasanaethau Amgylcheddol y cynllun Bathodyn Glas ar gyfer parcio consesiynol i bobl â chyfyngiadau symudedd difrifol;
- Cyhoeddodd yr Uned Gludiant amserlen fysiau newydd mewn fformat mwy hygyrch;
- Mae'r Uned Gludiant wedi sicrhau y bydd pob bws un llawr dros 7.5 tunnell fetrig yn hollol hygyrch o 1 Ionawr 2016, a phob bws deulawr o 1 Ionawr 2017;
- Mae'r Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd wedi datblygu Prosiect Cynhwysiant Digidol i helpu pobl i fynd ar-lein a gallu defnyddio cyfrifiadur;
- Mae'r Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd wedi gosod Wi-Fi mewn 17 o Gynlluniau Lloches a darparu cefnogaeth hyfforddiant perthnasol;
- Darparodd yr Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd ddiwrnod i Aelodau Etholedig a Thenantiaid i ddatblygu cynllun gweithredu i wella cyfathrebu, hyfforddiant a chyfleoedd i denantiaid godi materion;

- Mae'r Adran Dysgu Gydol Oes wedi galluogi lleihad pellach yn y nifer pobl ifanc sy'n gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig o 0.5% i 0.2% yn 2014-15;
- Mae Dysgu Gydol Oes wedi parhau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 11 ac nad ydynt yn derbyn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant o 1.8% yn 2014 i 1.7% yn 2015;
- Mae'r Adran Dysgu Gydol Oes wedi parhau i ganolbwyntio ar welliannau ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys am Ginio Ysgol am Ddim [FSM]:
 - Yn y Cyfnod Sylfaen, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys am FSM yn Wrecsam o 68.9% yn 2014 i 69.2% yn 2015 (+0.3%).
 - Yng Nghyfnod Allweddol 2, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys am FSM yn Wrecsam o 65.8% yn 2014 i 74.3% yn 2015 (+8.5%). Yng Nghyfnod Allweddol 3, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys am FSM yn Wrecsam o 50.5% yn 2014 i 56.0% yn 2015 (+5.5%).
 - Yng Nghyfnod Allweddol 4, bu gostyngiad ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys am FSM yn Wrecsam o 26.7% yn 2014 i 21.1% yn 2015.
- Mae'r Adran Dysgu Gydol Oes wedi parhau i ganolbwyntio ar welliannau yn y gwahaniaethau rhwng perfformiad bechgyn a genethod. Mae hyn wedi arwain at leihau'r bwch rhwng y rhywiau ac mae canlyniadau perfformiad wedi parhau i gynyddu ar gyfer bechgyn a genethod ym mhob cyfnod sylfaen:
 - Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2014 roedd gwahaniaeth o 10% rhwng perfformiad genethod a bechgyn (cyflawnodd genethod 88.0%; cyflawnodd bechgyn 78.0%). Yn 2015, lleihaodd y bwch mewn perfformiad rhwng genethod a bechgyn 0.8% i wahaniaeth o 9.2% (cyflawnodd genethod 90.0%; cyflawnodd bechgyn 80.8%).
 - Yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2014 roedd gwahaniaeth o 7.7% rhwng perfformiad genethod a bechgyn (cyflawnodd genethod 88.2%; cyflawnodd bechgyn 80.5%). Yn 2015, lleihaodd y bwch mewn perfformiad rhwng genethod a bechgyn 2.5% i wahaniaeth o 5.2% (cyflawnodd genethod 90.3%; cyflawnodd bechgyn 85.1%).
 - Yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 2014 roedd gwahaniaeth o 8.7% rhwng perfformiad genethod a bechgyn (cyflawnodd genethod 85.5%; cyflawnodd bechgyn 76.8%). Yn 2015, lleihaodd y bwch mewn perfformiad rhwng genethod a bechgyn 1.3% i wahaniaeth o 7.4% (cyflawnodd genethod 87.7%; cyflawnodd bechgyn 80.3%).
 - Yng Nghyfnod Allweddol 4 yn 2014 roedd gwahaniaeth o 11.2% rhwng perfformiad genethod a bechgyn (cyflawnodd genethod 56.6%; cyflawnodd bechgyn 45.4%). Yn 2015, lleihaodd y bwch mewn perfformiad rhwng genethod a bechgyn 4.3% i wahaniaeth o 6.9% (cyflawnodd genethod 55.6%; cyflawnodd bechgyn 48.7%).
- Arweiniodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol wrth ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 gan gynnwys ymgynghoriad ac ymgysylltiad gyda phobl â gwahanol nodweddion a ddiogelir;
- Parhaodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol i ddatblygu amryw o ddogfennau fel canllaw i staff mewn perthynas ag Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb;
- Diwygiodd y Gwasanaethau Cwsmer a Chorfforaethol a'r tîm Amrywiaeth Cymunedol fformat y Cyngor ar gyfer rhoi gwybod i wneud gwybodaeth yn ymwneud â chydaddoldeb yn ofyniad safonol;
- Arweiniodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol Her Amrywiaeth misol i annog staff i ystyried goblygiadau gwahanol nodweddion a ddiogelir ar gyfer eu maes gwasanaeth;
- Roedd Sioe Deithiol Cŵn Tywys i'r Deillion ar gael i staff;

- Arweiniodd y Gwasanaethau Cwsmer a Chorfforaethol ar archwiliad mynediad i wasanaethau ar gyfer cwsmeriaid byddar, wedi mynd yn fyddar, a thrwm eu clyw, a datblygwyd cynllun gweithredu;
- Darparwyd gwasanaethau llyfrgell Cyswllt Cartref i 2.095 o unigolion yn eu cartrefi eu hunain;
- Cyflawnodd Datblygiad Chwaraeon Wobr Rhuban Chwaraeon Anabledd Cymru am ei ddarpariaeth o gyfleoedd chwaraeon cynhwysol;
- Hybodd y gwasanaethau Llyfrgell lythrennedd trwy ymgysylltu â dros 16,000 o blant;
- Mae'r gwasanaethau llyfrgell wedi gosod meddalwedd Boardmaker ar gyfrifiaduron rhwydwaith cyhoeddus i alluogi cynhyrchu byrddau cyfathrebu gyda Symbolau Cyfathrebu Llun;
- Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn darparu cefnogaeth weithredol ar gyfer yr iaith a diwylliant Cymraeg:
 - Grŵp ysgrifennu Cymraeg a grŵp darllen o'r enw Grŵp Trafod.
 - Mae sesiwn Stori a Chân wythnosol ar gyfer plant bychain ac mae llyfrgelloedd eraill yn cynnal sesiynau stori Cymraeg ac yn derbyn ymweliadau gan eu grwpiau chwarae Cymraeg lleol.
 - Roedd 48 digwyddiad llenyddol / grwpiau darllen ar gyfer oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg gyda 265 o gyfranogwyr a 46 digwyddiad ar gyfer plant gyda 385 o gyfranogwyr.
 - Benthycwyd 1.811 o lyfrau Cymraeg i oedolion a 10.054 o lyfrau Cymraeg iau
- Darparodd llyfrgell Wrecsam llyfrgell 'dros dro' ym Mharc Caia 1 diwrnod yr wythnos dros 3 wythnos gan ddenu 47 o aelodau newydd i'r llyfrgell;

Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir a phobl nad ydynt.

- Cydlynodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol gefnogaeth amlasiantaeth wedi'i gydlyn yn ôl yr angen mewn perthynas â 19 o densiynau cymunedol a nodwyd rhwng Ebrill a Rhagfyr 2015;
- Darparodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol hyfforddiant ar asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac anghenion pobl â nodweddion a ddiogelir i:
 - Benaethiaid Adrannau;
 - Timau Rheolwyr Adrannol; ac
 - Aelodau Arweiniol;
- Trwy weithio gyda'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb, cynhyrchodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol rifynnau'r Gwanwyn a'r Hydref o'r Newyddlen Cydraddoldeb ar gyfer staff;
- Gweithiodd pwl nofio Byd y Dŵr gyda Grŵp Mwslimaidd Wrecsam i ganfod ffordd o annog merched Mwslimaidd i nofio a chytunwyd ar sesiwn i ferched yn unig a sicrhau bod achubwyr bywyd a staff pwl benywaidd;
- Hedfanodd y Cyngor y Faner Enfys am y tro cyntaf yn 2015 i ddangos eu cefnogaeth i Fis Hanes Lesbaid, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol [LGBT];
- Cyflwynodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol brosiect pobl ifanc Trawsrywiol i wella integreiddiad a chefnogaeth prif ffrwd, gan gynnwys:
 - Datblygu polisi enghreifftiol ar gyfer ysgolion;
 - Darparu hyfforddiant i ysgolion ar faterion Trawsrywiol a gweithredu polisiâu; a
 - Chomisiynu a goruchwylio prosiect pobl ifanc Trawsrywiol.

4. Cynnydd yn erbyn dyletswyddau penodol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru) 2011

Ar y cyfan, mae adrannau'n teimlo fod y CCS 'ar y trywydd cywir'. Mae manylion y cynnydd yn erbyn pob un o'r gofynion penodol dan Reoliadau Cymru, gan gynnwys Monitro Cydraddoldeb Gweithwyr wedi'i ddarparu yn adrannau 4 – 10 yr adroddiad hwn.

Mae monitro effeithiol y CCS wedi bod yn gyfyngedig oherwydd bod mwy o bwyslais yn parhau i fod ar brosesau ac allbynnau yn hytrach nag ar ganlyniadau. Ar gyfer 2016/17 byddwn yn parhau i fynd i'r afael â hyn mewn nifer o ffyrdd:

- Bydd canlyniadau cydraddoldeb yn cael eu nodi'n benodol yn y Cynlluniau Gwasanaeth adrannol a'u cysylltu â Chynllun y Cyngor; a
- Darparu cymorth, monitro a gwerthuso parhaus drwy'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb.

5. Ymgysylltu

Mae adrannau ar draws y Cyngor yn cofnodi ac yn monitro proffil y cwsmeriaid sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Nid yw'r broses ar gyfer hyn yn gyson ar draws y Cyngor. Mae nifer o adnoddau wedi'u datblygu i gefnogi gwelliannau:

Datblygwyd Pecyn Gwaith Ymgynghori i gefnogi cydweithwyr sy'n cynnal gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Consultation-Toolkit.pdf>

Mae nifer o ddogfennau canllawiau wedi'u datblygu gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, y mae Wreccsam yn aelod ohono, gan gynnwys:

- Deg Awgrym - Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a Sylw Dyledus;
- Deg Awgrym ar gyfer Monitro Cydraddoldeb;

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/sam/departments/corporate-and-customer-services/human-resources/equality-diversity-human-rights>

Rydym wedi datblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu 2013-2017 i'n cynorthwyo i wella ein dealltwriaeth o anghenion, safbwyntiau a phrofiadau unigolion, drwy ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'n fecanwaith allweddol er mwyn deall anghenion ein cwsmeriaid a hysbysu datblygiadau ein gwasanaethau.

<http://www.internal.wrexham.gov.uk/wordpress/wp-content/uploads/2013/03/Consultation-and-Engagement-Strategy.pdf> .

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data. Mae'r rhain yn cynnwys Swyddfa Ystadegau Gwladol www.neighbourhood.statistics.gov.uk NOMIS, Infobase Cymru, Stats Cymru, gwaith ymchwil ac adroddiadau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio Canolbwynt Ymgysylltu electronig sy'n eiddo i Fwrdd Gwasanaethau Lleol Wreccsam. Caiff aelodaeth y panel a'r sylwadau a dderbynnir eu dadansoddi ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys ym mhob adroddiad. Mae hyn yn darparu dull cydlynol i ymgynghori ac ymgysylltu ym mhob sefydliad partner y BGLI yn Wreccsam.

<http://yourvoicewrexham.net>

Mae nifer y bobl sy'n perthyn i rai cymunedau â nodweddion a ddiogelir yn eithaf bychan, ac felly mae'n anodd iawn gwneud dadansoddiad ystadegol. Mae'r Cyngor yn defnyddio

gwaith ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â'r grwpiau hyn o bobl. Caiff gwybodaeth ansoddol ei chasglu o'r grwpiau ffocws ac arolygon ac wrth ymgysylltu â grwpiau lleol megis:

- Fforwm Aml-asiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Wrecsam
- Cymdeithas Ddiwylliannol Islamaidd Wrecsam
- BAWSO
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Fforwm y Byddar Wrecsam
- Llesiau Pobl a Nam ar eu Clyw Wrecsam
- Fforwm Pobl dros 50 oed Wrecsam
- Senedd yr Ifanc Wrecsam
- Cyngorau Ysgolion
- Grŵp Cymunedol Portiwgeaidd
- Grŵp Trawsrywiol Unique
- VIVA LGBT
- Trans Positivity Wrexham
- Tangnefedd (Fforwm Rhyng-ffydd Gogledd-ddwyrain Cymru)
- Partneriaeth Mudo Wrecsam
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam (AVOW) a'r sefydliadau sy'n aelodau

Rydym yn cydnabod hefyd bod ymgysylltu gyda'r staff yn bwysig. Mae'r tîm Adnoddau Dynol yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid yn defnyddio Grŵp Polisi Rhithwir i adolygu polisiâu newydd a pholisiâu diwygiedig. Mae'r Grŵp yn cynnwys staff o'r holl adrannau a meysydd busnes corfforaethol allweddol e.e. cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, cyfreithiol a chyllid. Yn ystod 2015-16 adolygwyd y polisiâu canlynol:

- Cod Ymddygiad; a
- Rheoli presenoldeb.

Mae angen gwaith pellach i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn adolygu ein cynnydd yn erbyn y CCS. Trwy weithio gydag AVOW a sefydliadau'r sector cyhoeddus eraill yn Wrecsam cydlynodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol yn Wrecsam ein gweithgareddau i adolygu cynnydd a chadarnhau blaenoriaethau cydraddoldeb ar gyfer 2016-20. Bydd hyn yn hysbysu proses gynllunio gwasanaeth y Cyngor, gweithgareddau cydraddoldeb cysylltiedig a chanfod cyfleoedd i gydweithio gyda'n partneriaid.

6. Defnyddio gwybodaeth i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol

Mae adrannau yn defnyddio data gwasanaethau i ddeall proffil eu cwsmeriaid a'u darpar gwsmeriaid. Mae data'r Cyfrifiad yn cael ei ddefnyddio i nodi tan-gynrychiolaeth neu or-gynrychiolaeth o grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o fewn meysydd gwasanaeth penodol. Mae hyn yn galluogi adrannau i gytuno ar gamau gweithredu a gosod targedau.

Mae'r dadansoddiad o gyfraddau boddhad a chwynion yn helpu i nodi meysydd lle ceir gwahaniaethu posibl a mynd i'r afael yn rhagweithiol â thensiynau yn y gymuned e.e.

- Mae arolygon Gwasanaethau Cwsmer yn cynnwys monitro cydraddoldeb;
- Mae dadansoddiad yr adrannau o gwynion gan gwsmeriaid yn nodi meysydd posibl o wahaniaethu y gellir ymdrin â hwy; a
- Caiff gwybodaeth am densiynau cymunedol posibl ei chasglu a'i hadolygu, ac ymdrinnir â hyn trwy'r grŵp Monitro Tensiynau Cymunedol aml-asiantaeth a gydlynir gan y Cyngor.

Caiff yr wybodaeth a gesglir yn yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb ei defnyddio i lywio datblygiadau o fewn y gwasanaethau. Mae angen gwneud mwy o waith i rannu'r wybodaeth hon ar draws adrannau.

7. Gweithwyr Cyngor Wreccsam

Mae amrywiaeth yn bwysig oherwydd ei fod yn helpu'r Cyngor i gadw gweithlu sydd ag amrediad eang o sgiliau, cymwysterau a phrofiadau. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein holl bolisiau ac arferion cyflogaeth yn trin ein gweithwyr yn deg, yn hyrwyddo canlyniadau cyfartal, yn dileu gwahaniaethu ac yn meithrin perthynas dda â'r gweithwyr. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ymrwmo i gymryd camau i hyrwyddo cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu ac i gasglu gwybodaeth am weithwyr ar sail eu hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, tueddfryd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaethau sifil. Mae'r term "monitro cydraddoldeb" yn disgrifio'r broses a ddefnyddir i gasglu, storio a dadansoddi'r wybodaeth hon, a ddefnyddir i wella ein gwasanaethau, polisiau a gweithdrefnau.

Mae gwaith i gwblhau Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Cyflogaeth 2014-15 ar y gweill. Bydd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r gwahanol nodweddion a ddiogelir y mae modd i ni adrodd yn eu cylch ac ynglŷn â pholisiau ac arferion eraill sydd wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda cydraddoldeb yn y Cyngor. Mae'r data yn ymwneud ag unigolion a gyflogir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Nid yw'r data yn cynnwys y rheini sy'n gweithio gyda ni ond sy'n cael eu cyflogi yn achlysurol, dros dro neu drwy asiantaethau.

Bydd y Cyngor yn adrodd ar y canlynol, lle bo'r systemau cyfredol yn caniatáu hynny;

- Gweithwyr y Cyngor â nodweddion a ddiogelir yn flynyddol ar 31 Mawrth
- Gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, wedi'u rhannu yn ôl:
 - swydd
 - gradd
 - cyflog
 - math o gontract
 - patrwm gweithio
- ymgeiswyr ar gyfer swyddi'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sydd wedi gwneud cais i newid swydd o fewn y Cyngor, y nifer a fu'n llwyddiannus a nifer a fu'n aflwyddiannus yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a'r nifer a lwyddodd i gyflwyno cais llwyddiannus yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sy'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno fel achwynydd neu fel person y gwnaed cwyn yn eu herbyn yn ôl nodweddion a ddiogelir;
- Staff sy'n destun gweithdrefnau disgyblu yn ôl nodweddion a ddiogelir; a
- Staff sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor yn ôl nodweddion a ddiogelir.

8. Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)

Mae proses AEG ar-lein wedi'i datblygu ar y cyd gyda'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys dull sgrinio ac asesu cyfun. Mae nodweddion allweddol yn cynnwys:

- Rhifau adnabod AEG sydd hefyd yn cyfeirio at adran yr awdur;
- Dylunio sythweledol sydd wedi dileu'r angen am hyfforddiant ar lenwi'r ffurflen;
- Mae'r fformat yn cynnwys nodi effeithiau cadarnhaol ynghyd â'r rhai negyddol posibl;
- Mae'r fformat yn galluogi dolenni cyswllt electronig i ymgynghoriad perthnasol a dogfennau eraill;
- Proses adolygu cyfannol i ddiweddarau'r AEGau ar ôl gweithredu'r penderfyniadau; a
- gall yr Aelodau Etholedig gael mynediad at yr AEG yn electronig.

Rydym ni'n cydnabod bod unigolion a chymunedau dan bwysau cynyddol oherwydd yr amgylchedd economaidd yn y DU, newidiadau i'r system budd-daliadau, gostyngiadau disgwyliedig mewn gwasanaethau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol a chyfrifoldebau gofalu. Felly, agwedd y Cyngor at Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yw i gynnwys grwpiau o bobl sydd wedi'u rhestru yn benodol fel rhai â 'nodweddion a ddiogelir':

- Oed
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Tueddfryd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Ac yn ogystal, ystyried:

- Tlodi;
- Gofalu; ac
- Yr Iaith Gymraeg

fel nodweddion ychwanegol at ddibenion Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.

Trwy gymryd golwg ehangach ar y nodweddion gwarchoddedig rydym ni'n annog dull mwy cyfannol i ddiwallu anghenion yr holl gymunedau wrth ddylunio neu ddarparu ein gwasanaethau.

Grŵp Cydraddoldeb Ail-lunio Gwasanaethau:

I gefnogi ail-lunio gwasanaethau'r cyngor fel rhan o'r broses arbedion cyllidebol ar gyfer 2016-17 rydym wedi parhau i weithio gyda'r Grŵp Cydraddoldeb Ail-lunio Gwasanaethau. Mae'r grŵp hwn yn rhoi cymorth i swyddogion sy'n gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac yn annog cysylltiadau agosach rhwng adrannau ac unigolion a chymunedau sydd â nodweddion a ddiogelir.

Mae aelodaeth y grŵp yn cynnwys cydweithwyr mewnol ac aelodau'r cyhoedd sy'n gallu darparu sylwadau ar gynigion drafft o safbwynt nodwedd penodol a ddiogelir; mae dirprwy ar gyfer pob nodwedd ac ar gyfer Gofalwyr, y Gymraeg a Thlodi. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis ac yn darparu cefnogaeth ac adborth i swyddogion yn ystod y cam sgrinio o'u Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Y bwriad yw:

- sicrhau bod materion allweddol wedi'u nodi ar gyfer nodweddion perthnasol a ddiogelir;
- nodi unrhyw wahaniaethu a allai ddigwydd;
- nodi unrhyw gamau lliniaru posibl; ac

- awgrymu sianelau ymgynghori lleol lle bo'n briodol.

Nid oes gan y grŵp fandad swyddogol ac mae'r swyddogion yn mynychu'n wirfoddol.

Yn ystod 2015-16 darparodd y Grŵp gefnogaeth mewn perthynas ag 11 cynnig drafft. Roedd adborth gan y swyddogion oedd yn mynychu yn gadarnhaol.

Cytunwyd gan y Grŵp y byddai teitl y Grŵp yn newid i fod yn Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb. Teimlwyd bod y teitl hwn yn well adlewyrchiad o'i weithgareddau:

- Parhau i roi adborth ar gynigion drafft;
- Cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20; ac
- O Ebrill 2016, darparu adborth ar weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb – sicrwydd ansawdd:

Fel rhan o'r broses sicrwydd ansawdd mewnol, mae aelodau'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb [GGC] wedi datblygu meini prawf asesu ansawdd mewnol ar gyfer Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

Adolygodd Aelodau'r GGC sampl o Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb [AEG] yn erbyn meini prawf a gytunwyd yn flaenorol gan y Grŵp. Y sail ar gyfer y meini prawf asesu yw'r ddyletswydd gyfreithiol i arddangos 'ystyriaeth briodol'. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud dros y 12 mis diwethaf:

- Roedd pob penderfyniad yn ymwneud â'r gyllideb yn amodol ar AEG;
- Mae enghreifftiau o arfer da wedi eu nodi yn mhob adran
- Mae'r iaith Gymraeg, Gofalwyr a Thlodi wedi eu cynnwys yn y pecyn AEG i gynorthwyo wrth nodi effeithiau amrywiol.

Mewn perthynas ag 'ystyriaeth briodol' nodwyd nifer o faterion strategol a gweithredol. Bydd camau i fynd i'r afael â'r rhain yn cael eu datblygu'n gorfforaethol a gan yr adrannau yn ystod 2016-17.

Mae canllawiau'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ynglŷn ag AEG yn nodi dylai fod gan sefydliadau cyhoeddus systemau mewnol i sicrhau bod AEG yn cael eu cwblhau, o ansawdd digonol a bod mecanweithiau o'r fath yn gymesur â maint ac adnoddau'r awdurdod cyhoeddus, ac yn cael eu cefnogi ar lefelau uwch.

Mae'r GGC sy'n cael ei arwain gan swyddogion wedi adolygu cynnydd yn erbyn canllawiau EHRC:

Canllawiau EHRC	Gweithdrefn CBSW – sefyllfa 2015-16
Canfod unigolyn, uned neu dîm perthnasol i gefnogi gwaith yr awdurdod mewn perthynas â chydraddoldeb (ac yr AEG yn benodol).	Pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol Tîm Amrywiaeth Cymunedol Grŵp Gwella Cydraddoldeb Timau Uwch Reolwyr Adrannol
Swyddog cydraddoldeb penodedig i gydlynu a darparu cyngor (neu aelod o staff cyfredol sydd eisoes â chyfrifoldeb ar gyfer	Rheolwr/ Swyddog Amrywiaeth Cymunedol

gweithgarwch cydlynu).	
Cyflwyno eitem sefydlog ar raglen y bwrdd ar gyfer AEG a'u dyletswyddau ehangach	Adroddiad blynyddol y pwyllgor Craffu Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a'r Drefn Lywodraethol. Adroddiad blynyddol y Bwrdd Gweithredol Adborth i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Uwch Dimau Rheoli Adrannol
Cynnull gweithgor mewnol, wedi'i gadeirio gan aelod o'r uwch dîm rheoli, gyda chynrychiolaeth o bob adran neu gyfarwyddiaeth i fonitro cynnydd y sefydliad cyfan o ran AEG a pherfformiad dyletswyddau ehangach.	Grŵp Gwella Cydraddoldeb
Cyflawni gwiriadau ar enghreifftiau o AEG er mwyn profi ansawdd yr asesiadau.	Mae gweithdrefn Sicrwydd Ansawdd wedi'i datblygu gyda chyfarwyddyd gan y GGC a'r Adain Archwilio Mewnol: <ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r GGC i gyflawni asesiadau dwywaith y flwyddyn; • Cynnal adolygiadau ym mis Mai [i lywio'r adroddiad Cydraddoldeb blynyddol] ac ym mis Tachwedd [i lywio Cynllunio Gwasanaethau a'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol]; a • GGC i ystyried a herio asesiadau; paratoi adroddiadau trosolwg ar gyfer Penaethiaid Adrannau.
Addasu templedi AEG i gynnwys adran lofnodi ar ôl cwblhau	Mae AEG ar-lein yn gysylltiedig â'r adran awdur.
Sicrhau bod y polisïau a'r AEG perthnasol yn cael eu llofnodi gan arweinwyr cydraddoldeb ac aelod o'r uwch reolwyr.	Awdurdod wedi'i ddirprwyo gan Benaethiaid Adran i swyddogion sy'n cwblhau'r AEG unigol. Datganiadau Sicrwydd Mewnol. Diwygio'r Bwrdd Gweithredol / byrddau gwneud penderfyniadau i gynnwys crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a materion allweddol.
Cyflwyno panel 'cyfeillion beirniadol' o arbenigwyr lefel uwch lleol i ddarparu her gadarn i'r swyddogion mewn perthynas â'r AEGau.	Mae Grŵp Cyfeirio Cydraddoldeb yn cyflawni rhan o'r ddyletswydd hon ond mae angen gwaith pellach i ddatblygu'r grŵp.

Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb – Cydymffurfiaeth

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwyr Strategol a'r Penaethiaid Adrannau yw cynnal AEG a dylent sefydlu systemau i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Gan eu bod yn elfen allweddol o'r fframwaith llywodraethu, bydd trefniadau Cydraddoldeb y Cyngor yn destun archwiliadau rheolaidd, ond nid yn flynyddol o reidrwydd, fydd yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd y rheoliadau a osodwyd gan y Pennaeth Adran. Efallai y bydd archwiliadau o'r fath yn cynnwys gwiriadau cydymffurfiaeth ar AEG, ond bydd hyn yn ddibynnol ar asesiad risg yr adran Archwilio Mewnol ar ddechrau'r archwiliad. Bydd canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd i'r Pennaeth Adran, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn darparu canllawiau i gynorthwyo'r Cyngor a'r Penaethiaid Adran i sicrhau bod rheoliadau mewnol effeithiol ar waith mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth. Yn ystod 2015-16, adolygodd yr adran Archwilio Mewnol fframwaith y Cyngor ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a gwnaethpwyd yr argymhellion a ganlyn:

- Dylid annog y Pennaeth Dysgu Gydol Oes i barhau i weithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod wedi sefydlu Cynlluniau Cydraddoldeb Statudol a'u hatgoffa o'r risgiau o fethu cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb.
- Dylid ymateb yn ddigonol i unrhyw bryderon a gyflwynwyd i'r Uwch Dîm Rheoli neu i Aelodau.
- Dylai'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol statudol ofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u gweithredu yn ystod 2015-16.

Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Cynigion Cyllideb 2016-17

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u cynnwys yn y broses o bennu cyllidebau er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar wasanaethau rheng-flaen, pobl fregus a phobl sydd â nodweddion a ddiogelir.

Oherwydd y gwaith sylweddol sy'n mynd rhagddo i ail-lunio gwasanaethau o ganlyniad i doriadau cyllidebol ar draws y sector cyhoeddus, mae'r Cyngor wedi ategu ei ymrwymiad i roi blaenoriaeth i bobl diamddiffyn. Felly, cafodd cyllideb 2016/17 ei rhoi ger bron ymgynghoriad cyhoeddus trwy gyfrwng arolygon ar-lein a chopi caled. Cafodd yr wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod y broses hon ei defnyddio i lywio cynigion y gyllideb a chynorthwyo'r Cyngor i wrando ar ein dinasyddion er mwyn targedu adnoddau yn fwy effeithiol.

Cwblhawyd AEG ar gyfer holl gynigion cyllideb 2016-17 ac maent wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

9. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Cydnabyddir bod angen gwaith pellach i sicrhau bod holl aelodau staff y Cyngor yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Darparwyd hyfforddiant a gwaith gwella ymwybyddiaeth penodol gan y tîm Amrywiaeth Cymunedol mewn perthynas â:

- AEG – i wella dealltwriaeth o bwysigrwydd a pherthnasedd asesiadau o effaith;
- Materion trawsrywiol a datblygu polisi;
- Trosedd casineb;
- Gweithdy gwella ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Aelod Arweiniol;
- Hyfforddiant gwrth droseddau casineb ar Fframwaith Cenedlaethol Trechu Trosedd Casineb i gynyddu cyfraddau adrodd a darparu mwy o gefnogaeth i ddiodefwr;
- Cydlynu gweithgareddau gwella ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Gwrth Droseddau Casineb 2014;
- Cynhadledd Dim Bwlio yn canolbwyntio ar fwlio LGBT* a digwyddiadau casineb;

- Hyfforddiant monitro tensiynau yn y gymuned i roi mwy o gymorth cydlynol i gymunedau ac i ymdrin â thensiynau cyn iddynt waethygu;

Yn ogystal â'r hyfforddiant hwn, mae amrywiaeth a chydraddoldeb hefyd wedi'u cynnwys yn:

- Hyfforddiant ymsefydlu corfforaethol pob gweithiwr newydd;
- Gweithdai ymsefydlu pob Aelod Etholedig newydd; a
- Hyfforddiant codi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb blynyddol a gyflwynir i bob Aelod Etholedig o fewn y rhaglen Datblygu Aelodau blynyddol.

Mae'r Adrannau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant wedi diwygio eu rhaglen hyfforddiant:

- Hyrwyddo Fframwaith Cyflwyno Gofal Cymdeithasol Cyngor Gofal Cymru sy'n ceisio sefydlu sylfaen gwerth cadarn a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth unigolion sy'n derbyn gwasanaethau
- Gweithredu Cod Ymarfer Proffesiynol Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol (Adolygydd yn 2015) sy'n nodi'r safon ar gyfer staff gofal cymdeithasol gan sicrhau eu bod yn hyrwyddo hawliau, buddiannau a dymuniadau unigolion a gofalwyr, a sicrhau bod eu camau gweithredu yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.
- Mae'n ofynnol i holl staff a rheolwyr Gofal Cymdeithasol sy'n ymgymryd â chymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol arddangos dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb.
- Mae'r holl ddeunydd hyfforddi yn hyrwyddo arfer da wrth hybu cydraddoldeb a chyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a chanllawiau arfer da.
- Mwy Na Geiriau – cynhaliwyd gweithdai Iaith Gymraeg gyda'r ffocws ar y "cynnig gweithredol" a champau gweithredu y gall sefydliadau eu cymryd i wella capasiti i ddarparu gwasanaethau Iaith Gymraeg. Roedd y rhai yn bresennol yn cynnwys rheolwyr a chyflogwyr o Adran Gofal Cymdeithasol y Cyngor a darparwyr annibynnol ledled y Sir.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn gweithio gyda Choleg Cambria ac wedi cynnal hyfforddiant sgiliau Iaith Gymraeg penodol ar gyfer staff gofal uniongyrchol. Mae'r sesiynau hyn wedi canolbwyntio ar ynganu, cyfarchion syml a brawddegau allweddol a ddefnyddir yn yr amgylchedd gofal.
- Datblygwyd sesiynau Siarad Gymraeg anffurfiol amser cinio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol i alluogi staff i ymarfer a gwella eu sgiliau. Gweithredwyd y sesiynau hyn a hwyluswyd yn 2015/16 ac maent yn parhau i gael eu cynnal yn fisol. Nod y sesiynau hyn ydi cefnogi'r gwaith o weithredu Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau' ac i wella ein gallu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae Cynllun Hyfforddi Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion 2015/16 yn cynnwys hyfforddiant ar faterion cydraddoldeb e.e. mae hyfforddiant Dementia, Diogelu a Gwarchod Oedolion yn cynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae digwyddiadau hyfforddiant eraill fel Diogelu Oedolion yn croesgyfeirio at gydraddoldeb.

Caiff perfformiad aelodau staff unigol ei fonitro trwy'r broses Adolygiad Perfformiad a Datblygiad Gyrfa (APDG). Caiff amcanion yn ymwneud â'r gwaith eu gosod ar gyfer pob aelod staff a'u hadolygu bob chwe mis. Mae amcanion cydraddoldeb yn adran orfodol o'r templed APDG. Bydd hyn yn ein helpu i symud ymlaen â'n hamcanion cydraddoldeb corfforaethol a nodi anghenion hyfforddiant. Mae angen mwy o waith monitro a dadansoddi i werthuso effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu.

Er bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a sesiynau codi ymwybyddiaeth wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol, rydym yn cydnabod bod angen mwy o waith i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o'r dyletswyddau ar draws yr holl grwpiau staff. I gefnogi'r dull hwn mae nifer o becynnau e-ddysgu wedi'u datblygu:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Cydraddoldeb yn y gweithle;
- Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb;
- Mynd i'r Afael â Throsedd Casineb;
- Monitro Tensiwn Cymunedol; a
- Hyrwyddo Perthnasau Da.

Mae'r rhain wedi'u dylunio i adlewyrchu dyletswyddau cydraddoldeb statudol y Cyngor ac maent ar gael i'r holl staff sydd â mynediad at gyfrifiadur. Mae modiwl hyfforddiant PowerPoint ynglŷn â chyfrifoldebau cydraddoldeb wedi'i ddatblygu ar wahân i reolwyr ei ddefnyddio gyda staff peripatetig e.e. Strydlun.

Er mwyn cynorthwyo gyda'r broses AEG rydym wedi datblygu cyfres o daflenni data 'Dyma Wrecsam' mewn cydweithrediad â'r GGC a'r tîm Gwella Perfformiad a Phartneriaethau [GPP]. Mae un daflen ar gyfer pob nodwedd a ddiogelir ynghyd â Gofalwyr, y Gymraeg a Thlodi gan fod y rhain yn flaenoriaethau corfforaethol. Hefyd, paratowyd taflen Dadansoddiad Cyfrifiad i gynorthwyo adrannau i ddadansoddi data defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â phob un o'r grwpiau a ddiogelir.

Mae timau adrannol wedi'u hannog i ddefnyddio taflen ddata "Dyma Wrecsam" bob mis i gefnogi trafodaeth am amrywiaeth lleol mewn perthynas â'u darpariaeth gwasanaeth. Dros amser bydd yr Her Amrywiaeth misol hwn yn cefnogi'r broses AEG ymhellach.

Mae anghenion hyfforddiant adrannol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gasglu gan aelodau'r GGC. Mae hyn yn ategu gwaith y tîm Amrywiaeth Cymunedol.

10. Caffael

Mae manylion ynglŷn â sut y gwreiddiwyd cydraddoldeb yn y broses gaffael wedi'u cynnwys yn y CCS. Yn fyr, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r model caffael cyhoeddus 'SQUID' a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru (Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr). Nod y dull hwn o weithredu yw cynnig nifer o fanteision yn ymwneud â hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy holi nifer o gwestiynau allweddol:

1. A yw unrhyw un o'r amgylchiadau a ganlyn wedi bod yn berthnasol i'ch sefydliad yn ystod y tair blynedd diwethaf? - Dyfarniad o gamwahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth neu unrhyw lys neu dribiwnlys arall (neu achosion cymharol)? Os atebwyd 'do', rhowch grynodedb o'r casgliad neu ddyfarniad ac esboniwch pa gamau a gymerwyd gennych i atal sefyllfa debyg yn y dyfodol.
2. Os ydych yn defnyddio is-gontractiwr(wyr), pa brosesau sydd ar waith gennych i wirio a oes unrhyw un o'r sefyllfaoedd uchod yn berthnasol iddynt?
3. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau rheoli yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?
4. A yw eich staff sydd â chyfrifoldebau cyflenwi gwasanaethau yn derbyn hyfforddiant ym maes cydraddoldeb?

Mae canllawiau ar gydraddoldeb yn cael eu rhoi gan Dîm Caffael y Cyngor, gyda gwybodaeth arfer gorau ar gael i swyddogion trwy Gynllunydd Llwybr Caffael Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae manylebau contractau a chontractau yn cynnwys cymalau cydraddoldeb penodol yn ymwneud ag amcanion cydraddoldeb a dyletswyddau cyfreithiol y Cyngor, yn ôl yr hyn sy'n berthnasol ac yn gymesur i'r contract.

11. Casgliad a phrif gamau gweithredu ar gyfer 2016-17

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor (CCS) ac wrth gyflawni ei ddyletswyddau cydraddoldeb penodol a chyffredinol.

Er y gwnaethpwyd cynnydd da, mae llawer o waith i'w wneud. Yn ogystal â'r amcanion sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig yn 2016-20 byddwn hefyd yn:

- Parhau i flaenoriaethu a galluogi cyfle cyfartal trwy ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor;
- Parhau i gefnogi a galluogi adrannau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb corfforaethol;
- Cefnogi integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth i Gynllun Lles Cenedlaethau'r Dyfodol Wrecsam;
- Cefnogi a galluogi ffoaduriaid o Syria i ailsefydlu yn Wrecsam fel rhan o gefnogaeth dyngarol y Cyngor ar gyfer pobl mewn angen eithafol;
- Gwella cydlynid rhanbarthol y gweithgareddau i fynd i'r afael â gwahaniaethu a meithrin perthnasau da mewn perthynas ag atal terfysgaeth a Chaethwasiaeth Modern;
- Gwella ansawdd Monitro Cydraddoldeb;
- Parhau i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- Ymgynghori gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2016-20) i'w weithredu o fis Ebrill 2016;
- Gweithredu unrhyw newidiadau o ganlyniad i archwiliad sicrwydd ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb blynyddol;
- Adolygu fformatau adroddiadau Pwyllgorau Trwyddedu a Chynllunio; a
- Darparu hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i dargedu i'r holl Bwyllgorau Craffu.

Diolch yn fawr am ddarllen Adroddiad Blynyddol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2015-16.

Rydym yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer ein hadroddiad blynyddol. Cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 01978 292261

E-bost: onewrexham@wrexham.gov.uk

12. Atodiadau

1. Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol
2. Gwybodaeth Cydraddoldeb
3. Rhestr Termiau

Cynllun gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol Wrecsam 2012-16: Yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd 2015-16:

Credwn ein bod wedi gwneud cynnydd da yn ôl pob un o'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau o'r modd y cyflawnwyd hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr hunanasesiad hwn yn gyfyngedig gan nad yw'n cynnwys asesiad cadarn gan bobl Wrecsam. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn ystod 2015-20 wrth i ni ddatblygu CCS ar gyfer 2016-20.

Allwedd:

AED	Adran Asedau a Datblygu Economaidd
CWD	Yr Adran Lles a Datblygu Cymunedol
CCS	Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
LLL	Dysgu Gydol Oes
ASC	Gofal Cymdeithasol i Oedolion
CYP	Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc (gwybodaeth drafft mewn italig wrth aros am gymeradwyaeth yr Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol).
FIN	Yr Adran Gyllid
HPP	Adran Tai a Gwarchod y Cyhoedd
ENV	Tîm yr Amgylchedd
EIG	Y Grŵp Gwella Cydraddoldeb a arweinir gan swyddog

Themâu Cynllun y Cyngor	Cynllun y Cyngor canlyniadau Blaenoriaeth	Amcanion Cydraddoldeb	Engbreiffiau o gyfraniadau adrannol i'r Cynllun Gweithredu CCS yn ystod 2015-16
<p>Yr Economi</p>	<p>Mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu a buddsoddi yma</p> <p>Mae busnesau yn gallu sefydlu a thyfu yma</p> <p>Mae pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau</p>	<p>1. Lleihau anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a thâl ar gyfer rhyw a nodweddion eraill a ddiogelir a chynllunio gweithredoedd fel bo'n briodol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Galw Wrecsam (canolfan gwasanaeth cwsmer wyneb yn wyneb y Cyngor) yn darparu mynediad rhyngwyd a chymorth syml gyda mynd ar-lein i gael gwasanaethau'r Cyngor (er enghraifft, gwneud taliadau neu geisiadau am swyddi) a chael gwybodaeth gyffredinol. Gwelir Galw Wrecsam fel man mynediad allweddol ar gyfer cwblhau ceisiadau am Gredyd Cynhwysol. (CCS) • Mae'r Tîm Gwasanaethau Cwsmer (TGC) yn ymgynghori ag iTEC yn rheolaidd i adolygu cyfleoedd, er enghraifft i gynnig hyfforddiant neu gyfleoedd MA i bobl ifanc. (CCS) • Defnyddio pecyn hyrwyddo ar y we "GovDelivery" sy'n galluogi cwsmeriaid i gofrestru a derbyn gwybodaeth sy'n berthnasol iddyn nhw e.e. ceisiadau swyddi ar-lein. (CCS) • Gwella trefnau monitro cydraddoldeb rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf. (AED) • Mae Cynllun Gostyngiadau i Fusnesau Bach wedi'i weithredu. (FIN) • Atebodd LlinellFusnes, Llyfrgell Wrecsam, 7544 o ymholiadau gan 744 o gwsmeriaid gwahanol. Roedd 328 o'r rhain yn fusnesau newydd. (CWD)
	<p>Mae gan blant a phobl ifanc ddyheadau, ac</p>	<p>2. Lleihau anghydraddoldebau o ran lechyd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu system sicrwydd Hylendid Bwyd newydd. (HPP) • Cefnogi datblygiad Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru. (HPP) • Darparu cefnogaeth i bobl ddiamddiffyn ac annog synnwyr o les trwy lotments y Cyngor. (ENV) • Cyflawni Safon Aur lechyd Corfforaethol (CCS) • Gweithredu'r Ddeddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) (CYP ac ASC) • Gweithredu Gwasanaeth Anabledd sengl ar gyfer Plant ac Oedolion (CYP ac ASC) • Darparu gwelliannau i Ofal Canolradd a Gwasanaethau Ail-alluogi (ASC)

Pobl	<p>maent yn gallu dysgu a gwireddu eu potensial.</p> <p>Mae plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel</p> <p>Mae pawb yn gallu gwneud dewisiadau iach</p> <p>Mae holl bobl hŷn diamddiffyn yn ddiogel, â'r iechyd gorau posibl, annibyniaeth a lles</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn cael ei hybu a'i chefnogi</p>		<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawnwyd Gwobr Rhuban Chwaraeon Anabledd Cymru sy'n cydnabod cynnwys pobl gydag anabledd mewn chwaraeon (CWD) • Mae pobl â nodweddion a ddiogelir yn cael eu hannog a'u galluogi i gymryd rhan mewn chwaraeon (CWD) • Cefnogir Gofalwyr i gael mynediad i'r Cynllun Gofalwyr PURE (CWD) • Mae gan holl lyfrgelloedd Wrecsam gasgliadau gwybodaeth i Ofalwyr ac ar lechyd a Lles (CWD)
		<p>3. Lleihau canlyniadau anghyfartal ym maes Addysg i wneud y mwyaf posibl i wireddu potensial unigolion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae perfformiad disgyblion sy'n cael Cinio Ysgol am Ddim (FSM) a grwpiau dysgwyr diamddiffyn eraill yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes a'i fonitro ganddynt. (cyflwynwyd adroddwyd ddiwethaf 21 Ebrill 2016, adroddiad rhif Hed/07/16). (LLL) • Mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig wedi lleihau 0.5% pellach i 0.2%. (LLL) • Mae disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi i fynd i addysg bellach, cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd gostyngiad pellach yn nifer y bobl ifanc a oedd yn gadael Blwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o 1.8% yn 2014 i 1.7% yn 2015. (LLL) • Darparu hyfforddiant Diogelu i Lywodraethwyr Ysgolion. (LLL) • Darparu hyfforddiant Atal i Lywodraethwyr Ysgolion. (LLL) • Darparu hyfforddiant Bwlio LGBT a Stereoteipiau Rhyw i Lywodraethwyr Ysgolion. (LLL) • Yn ystod gwanwyn 2015, gweithiodd y Tîm Gwasanaethau Cwsmer gyda Phartneriaeth Parc Caia i gynnal sesiynau grŵp peilot llwyddiannus i gefnogi cwsmeriaid sydd angen cefnogaeth ychwanegol wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Y bwriad yw ehangu'r rhaglen hon ar draws rhagor o wasanaethau, gan barhau i weithio gyda sefydliadau partner. O'r newidiadau a nodwyd trwy'r rhaglen ail-lunio, rhagwelir y bydd gwaith yn y maes hwn yn mynd i'r afael, datblygu a chynnwys Digidol, Brand a Chyfathrebu mewn un tîm. Bydd gwaith y tîm hwn yn cefnogi'r Cyngor yn uniongyrchol yn ei uchelgais o amgylch newid sianel. (CCS) • Cynorthwyo plant ag anghenion arbennig i fynd i ac o'r ysgol a gwasanaethau cefnogi perthnasol eraill. (ENV)

			<ul style="list-style-type: none"> • Darparodd llyfrgell Wreccsam 1,350 o ddsbarthiadau dysgu i oedolion i 12,799 o unigolion i wella mynediad y gymuned i addysg (CWD) • Darparodd llyfrgell Wreccsam sesiynau blasu TG am ddim i 352 o unigolion (CWD) • Mae llyfrgelloedd Wreccsam yn darparu Llyfrau i Fabanod fel rhan o gynllun cenedlaethol a lleol i hyrwyddo llythrennedd (CWD) • Darparodd llyfrgelloedd Wreccsam ddigwyddiadau llythrennedd i 3696 o oedolion a phlant i hyrwyddo llythrennedd (CWD) • Darparodd staff llyfrgell Wreccsam sesiynau llythrennedd mewn ysgolion i 3,943 o blant ac ymwelodd 12,123 o ddisgyblion pellach â'r llyfrgell am sesiwn (CWD) • Darparwyd gwasanaethau llyfrgell Cyswllt Cartref i 2,095 o unigolion yn eu cartrefi eu hunain (CWD) • Cynhaliwyd 56 sesiwn iaith a Chwarae mewn 3 llyfrgell ac roedd 1059 o bobl yn bresennol (CWD) • Mae llyfrgelloedd Wreccsam yn darparu llyfrau mewn ystod eang o fformatau hygyrch ac ieithoedd cymunedol (CWD) • Mae'r darllenydd Synergy Magnifying ar gael i bobl gyda nam ar y golwg (CWD) • Mae meddalwedd Boardmaker wedi'i osod ar gyfrifiaduron rhwydweithiau cyhoeddus sy'n galluogi cynhyrchu byrddau cyfathrebu gyda Symbolau Cyfathrebu â Llun (Communication Symbols) (CWD) • Darparodd llyfrgelloedd Wreccsam fynediad am ddim i TG ar gyfer unigolion sy'n chwilio am swyddi; dysgu ar-lein trwy'r Brifysgol Agored; mynediad hygyrch am ddim i adnoddau ar-lein llyfrgelloedd megis e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac amrywiaeth e-gylchgronau i'w lawrlwytho (CWD) • Roedd gan y gwasanaethau llyfrgell 71.618 o ddefnyddwyr cyfrifiadur sy'n oedolion a 13.912 o ddefnyddwyr ifanc (CWD)
		<p>4. Lleihau anghydraddoldeb mewn diogelwch personol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae staff yn Galw Wreccsam wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth Dementia i helpu gyda'u cefnogaeth a'u gwasanaethau i gwsmeriaid. (CCS) • Archwilio a thrwyddedu pob cartref symudol yn y Fwrdeistref Sirol. (HPP)

			<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlwyd Uned Lleihau Niwed yn Wrecsam gyda Heddlu Gogledd Cymru i ganolbwyntio ar leihau niwed alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. (HPP) • Agorwyd canolfan gefnogi Hafan y Dref (CCS) • Gweithredu Canolfan Diogelu Aml-asiantaeth (MASH) (CYP)
		5. Mae pobl yn hyderus wrth adrodd am densiynau cymunedol	<ul style="list-style-type: none"> • Darparodd y Tîm Amrywiaeth Cymunedol hyfforddiant i staff (CWD) • Rhoddwyd gwybod am 19 o densiynau cymunedol a'u datrys, Ebrill – Rhagfyr 2015 (CWD)
		6. Hyrwyddo cysylltiadau da o fewn a rhwng gwahanol gymunedau	<ul style="list-style-type: none"> • Darparodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol hyfforddiant ar asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac anghenion pobl â nodweddion a ddiogelir (CWD); • Trwy weithio gyda'r Grŵp Gwella Cydraddoldeb, cynhyrchodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol rifynnau'r Gwanwyn a'r Hydref o'r Newyddlen Cydraddoldeb ar gyfer staff (CWD). • Gweithiodd pwll nofio Byd y Dŵr gyda Grŵp Mwslimaidd Wrecsam i ganfod ffordd o annog merched Mwslimaidd i nofio (CWD). • Hedfanodd y Cyngor y Faner Enfys am y tro cyntaf yn 2015 (CWD). • Cyflwynodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol brosiect pobl ifanc Trawsrywiol i wella integreiddiad a chefnogaeth prif ffrwd (CWD) • Darparodd llyfrgelloedd Wrecsam leoliad ar gyfer amrywiaeth eang o grwpiau lleol (CWD)
		7. Lleihau anghydraddoldeb o ran Cynrychiolaeth a Llais	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd plentyn neu berson ifanc sy'n gwneud cwyn yn cael cynnig cefnogaeth trwy wasanaethau eirioli fel trefn orfodol. Gellir hefyd trefnu hyn ar gyfer unrhyw oedolyn sydd angen cefnogaeth eiriolwr. (CCS) • Mae Galw Wrecsam yn hwyluso cymorthfeydd gwybodaeth Hawliau Lles i gefnogi a chynghori cwsmeriaid ynglŷn ag amgylchiadau ariannol. (CCS) • Darparu cynhadledd tenantiaid a diwrnodau hyfforddiant i denantiaid fel rhan o'r Strategaeth Tenantiaid a Les-ddeiliaid. (HPP) • Darparwyd Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg mewn hyfforddiant Gofal Cymdeithasol (CYP ac ASC) • Ymgynghorodd y tîm Amrywiaeth Cymunedol â'r holl nodweddion a ddiogelir wrth ddatblygu'r CCS 2016-20 (CWD).

<p style="text-align: center;">Lle</p>	<p>Cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl</p> <p>Lle amgylcheddol cyfrifol</p> <p>Cymunedau o gymdogaethau, adeiladau a mannau agored cynaliadwy a deniadol</p> <p>Cymunedau wedi eu cysylltu'n dda</p>	<p>8. Lleihau anghydraddoldeb wrth gael mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu Safonau Gofal Cwsmer diwygiedig (CCS) • Darparu mynediad 24/7 i gwsmeriaid i'r Cyngor gyda ffafriaeth ar gyfer dulliau ar-lein a digidol ond hefyd yn cadw deisiadau fel ffôn, e-bost, post ac ymweliadau personol naill ai trwy ehangu'r ystod apwyntiadau neu ymholiadau galw heibio achlysurol. (CCS) • Cymryd camau i ddarparu gwasanaeth cyswllt cwsmer dwyieithog gwell yn Gymraeg neu Saesneg. (CCS) • Cymryd camau i gyhoeddi gwybodaeth mewn iaith syml heb jargon, sy'n hawdd ei deall a heb dalfyriadau diangen. (CCS) • Darparwyd cyfieithiad a chefnogaeth dehongli yn ôl yr angen. (CCS) • Datblygu gwaith i gyflawni'r nod siarter 'Uwch na Geiriau' erbyn hydref 2016, i wella darpariaeth y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid byddar, wedi mynd yn fyddar neu'n drwm eu clyw. (CCS) • Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod i staff (CCS) • Cynnal nifer o staff gyda iaith Arwyddion Prydeinig syml i gefnogi cwsmeriaid. (CCS) • Darparu gwell mynediad i'r amserlen bysiau mewn perthynas â gorsaf fysiau canol y dref. (CCS) • Cyflawnwyd rhaglen gyfalaf £38 miliwn i wella eiddo'r Cyngor i Safon Ansawdd Tai Cymru. (HPP) • Datblygwyd 8 fideo ar gyfer darpar denantiaid a thenantiaid presennol ar: <ul style="list-style-type: none"> ○ Dalu eich rhent a chyllidebu ○ Cyfranogiad Tenantiaid ○ Tai Gwarchod ○ Cymorth gyda'ch Tenantiaeth ○ Bod yn gymydog da ○ Materion atgyweirio ○ Rhaglen ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd (HPP) • Adolygu a diwygio Polisi Dyraniadau Tai. (HPP) • Darparu gwybodaeth i denantiaid ar drefniadau Diwygiadau Lles. (HPP) • Datblygu cynllun Tai Fforddiadwy i helpu pobl leol i gael eu cartref eu hunain. (HPP) • Darparwyd Cronfa Llefydd Llewyrchus Llawn Addewid i helpu pobl leol
---	--	--	---

			<p>i wneud gwelliannau i'w cartrefi. (HPP)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwell cyfleusterau ar y safle yn safle Sipsiwn a Theithwyr yr awdurdod lleol. (HPP) • Gwell mynediad i Wasanaethau Cefnogi trwy benodi Swyddog Atgyfeirio fel Pwynt Mynediad Sengl. (HPP) • Mae'r tîm Caffael wedi helpu adrannau i gynnwys Buddion Cymunedol yn eu contractau, i sicrhau bod manteision cymdeithasol ac economaidd yn cael eu cyflawni. (FIN) • Hyrwyddo'r Cynllun Yswiriant Cynnwys i Denantiaid. (FIN) • Galluogi ailddefnyddio eiddo adfail trwy hyrwyddo arian grant allanol ar gyfer gwaith trwsio. (FIN) • Darparu casgliadau gwastraff â chymorth. (ENV) • Gorfodi'r Cynllun Bathodynau Glas i sicrhau bod mannau parcio ar gael i'r rheiny sydd eu hangen. (ENV) • Cyflwyno polisi i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle (CCS) • Adolygu arwyddion i sicrhau eu bod yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf (CCS) • Parhau i weddarlledu cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol ac arbrofi gyda gweddarlledu 10 awr o gyfarfodydd Pwyllgor Craffu (CCS) • Datblygwyd cynllun gweithredu Uwch na Geiriau i wella mynediad at wasanaethau i bobl sy'n fyddar neu wedi mynd yn fyddar (CCS) • Gwella mynediad i Galw Wreccsam gan gynnwys mynediad i gadeiriau olwyn a chyflwyno bysellfyRDDau gwelededd uchel yn yr ardal hunan wasanaeth (CCS) • Lanswyd mynediad ar-lein digidol i wasanaethau'r Cyngor (CCS) • Lanswyd ffrwd ariannu grant 'Gyda'n Gilydd yn Wreccsam'(CCS) • Codi arian i gefnogi cyn-filwyr lleol (CCS) • Rhoi tir i alluogi prosiect adeiladu cartrefi cymuned cyn-filwyr (CCS) • Rhoi cefnogaeth i 8916 o bobl trwy'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf (CYP) • Datblygu Pwynt Mynediad Sengl (SPOA) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant (CYP ac ASC) • Gweithredu strategaeth atal Plant Dan Ofal (CYP). • Mae gan lyfrgelloedd Wreccsam categori benthyca newydd ar gyfer
--	--	--	--

			<p>pobl ddigartref (CWD)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Gwasanaeth Llyfrgell yn darparu cefnogaeth weithredol ar gyfer yr iaith a diwylliant Cymraeg: <ul style="list-style-type: none"> ○ Grŵp ysgrifennu Cymraeg a grŵp darllen o'r enw Grŵp Trafod. ○ Mae sesiwn Stori a Chân wythnosol ar gyfer plant bychain ac mae llyfrgelloedd eraill yn cynnal sesiynau stori Cymraeg ac yn derbyn ymweliadau gan eu grwpiau chwarae Cymraeg lleol. ○ Roedd 48 digwyddiad llenyddol / grwpiau darllen ar gyfer oedolion drwy gyfrwng y Gymraeg gyda 265 o gyfranogwyr a 46 digwyddiad ar gyfer plant gyda 385 o gyfranogwyr. ○ Benthycwyd 1,811 o lyfrau Cymraeg i oedolion a 10,054 o lyfrau Cymraeg iau • Ymgysylltu â phobl â nodweddion a ddiogelir wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys 7 digwyddiad cymunedol (CWD) • Mae'r holl geisiadau cynllunio wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn yr ardal. (CWD) • Darperir tai fforddiadwy ar ddatblygiadau newydd lle bo'n ymarferol (CWD) • Darparodd llyfrgell Wrecsam llyfrgell 'dros dro' ym Mharc Caia 1 diwrnod yr wythnos dros 3 wythnos gan ddenu 47 o aelodau newydd i'r llyfrgell (CWD)
Sefydliad	Cwsmeriaid bodlon sy'n rhan o'n hymdrechion Creu'r amodau ar gyfer llwyddiant	9. Mae'r sefydliad angen hyrwyddo cydraddoldeb o safbwynt canlyniadau i'w cyflawni	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ystyriaethau cydraddoldeb wedi'u cynnwys yn y prosesau gosod cyllideb ar gyfer 2016-17 (FIN) • Cynnal archwiliad o brosesau yn ymwneud â chydraddoldeb a gwneud argymhellion. (FIN) • Ymgymryd â hyfforddiant ar y broses Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. (FIN) • Darparu hyfforddiant staff ar Gaethwasiaeth Modern (CCS a CWD)
		10. Datblygu ymagwedd fwy strategol tuag at gasglu a defnyddio data	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygio'r canllawiau rhoi gwybod i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor llawn i wella proffil yr Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb o fewn y broses gwneud penderfyniadau (CCS a CWD). • Mae'r proffil cydraddoldeb wedi'i amlygu a'i gryfhau o fewn llywodraethu rhaglen ail-lunio'r Cyngor (CCS a CWD)

		cydraddoldeb	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys dadansoddiad cydraddoldeb fel rhan o'r ymgynghoriad gosod cyllideb Penderfyniadau Anodd (CCS, FIN a CWD) • Adnewyddu'r Strategaeth Gomisiynu gan ystyried data cydraddoldeb (CYP ac ASC).
		<ul style="list-style-type: none"> • Gwella'r broses o fonitro gweithlu ar draws nodweddion a ddiogelir 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r polisi rheoli presenoldeb wedi'i adolygu a'i ail-lansio (CCS). • Parhau i hyrwyddo monitro cydraddoldeb staff (CCS).
		<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a gwella polisiau cyflogaeth i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ac unrhyw rwystrau i gael mynediad at waith 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r polisi Rheoli Presenoldeb wedi'i adolygu a'i ail-lansio (CCS). • Mae'r polisi Cod Ymddygiad wedi'i adolygu a'i ail-lansio (CCS).
		11. Codi ymwybyddiaeth am ofynion o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn cysylltiad â chaffael i sicrhau bod contractau'n cael eu monitro	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi cefnogaeth i adrannau i alluogi gwell trefn monitro contractau gan gynnwys mewn perthynas â monitro cydraddoldeb. (FIN)
		12. Annog trafodaeth ar faterion cydraddoldeb mewn cyfarfodydd tîm ar gyfer pob maes	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo cwblhau modiwlau e-ddysgu cydraddoldeb. (FIN) • Darparwyd Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg mewn hyfforddiant Gofal Cymdeithasol (CYP ac ASC)

		gwasanaeth	
		13. Staff y Sector Cyhoeddus, Gwirfoddol a Chymunedol yn deall pwy yw ein cymunedau a beth maent ei angen	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol [AVOW] a phartneriaid y sector cyhoeddus yn Wrecsam i nodi materion cydraddoldeb allweddol (CWD) • Rhoi cefnogaeth i sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â rhoi gwybod am droseddau casineb (CWD)

Gwybodaeth cydraddoldeb:

Rydym wedi defnyddio Cyfrifiad 2011 i'n cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o'r boblogaeth leol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddeall pa mor dda y mae ein gwasanaethau yn diwallu anghenion y boblogaeth gyfan.


Mae taflenni data 'Dyma Wrecsam' ar gael i staff yn awr ar gyfer yr holl nodweddion a ddiogelir a'r Gymraeg a Diwylliant, Gofalwyr, a Thlodi gan fod y rhain yn flaenoriaethau corfforaethol.

Hil ac Ethnigrwydd:

Mae **93.1%** o boblogaeth Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Wyn: Cymreig / Prydeinig¹. Golyga hyn fod dros **9,100** o gwsmeriaid, cydweithwyr, cymdogion a chyfeillion eraill sy'n perthyn i'r grwpiau ethnig a nodir isod:

Anabledd

Mae gweithgareddau bob dydd **1 mewn 5** o bobl Wrecsam wedi'u cyfyngu oherwydd salwch. Mae hynny'n **27,905** o bobl². Nid yw'r cyfrifiad yn casglu gwybodaeth benodol ynglŷn â nifer y bobl sydd ag anabledd, ond gellir defnyddio gwybodaeth berthnasol o'r wybodaeth am fudd-daliadau anabledd³.



Hawliau Budd-daliadau Anabledd yn Wrecsam
6,070 o bobl leol yn hawlio budd-dal ESA/analluedd
1,290 o bobl leol yn hawlio budd-dal anabledd
1,560 o bobl leol yn hawlio budd-dal Gofalwyr

Mae mwy nag 1 mewn 10 o bobl yn Wrecsam yn ofalwyr. Mae rhai ohonynt yn blant. Mae 3% o bobl leol yn darparu mwy na 50 awr o ofal di-dâl yr wythnos

Ceisiadau am gyfieithu a dehongli 2015-16

¹ Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2012. Ymatebwyr yn nodi eu bod yn Wyn: Saesneg / Cymraeg / Albanaidd / Gwyddelig Gogledd Iwerddon / Prydeinig

² Swyddfa Ystadegau Gwladol © Hawlfraint y Goron 2012. Ymatebwyr yn nodi bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu ychydig neu lawer oherwydd problem iechyd neu anabledd tymor hir.

³ Data o Nomisweb ar 25 Medi 2013. Y ffynhonnell yw hawlwyr budd-dal DWP – grŵp cleientiaid oedran gwaith

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwybodaeth a gwasanaethau i gwsmeriaid yn eu hiaith eu hunain. Rydym hefyd yn gweithio gyda'n partner i gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyrsiau Cymraeg a Saesneg.

2015-16				
Iaith	Cyfieithu dros y ffôn	Cyfieithu dogfennau	Cyfieithu wyneb yn wyneb	Cyfanswm
Pwylaidd	61	33	61	155
Portiwgaleg	19	12	6	37
Breil		12		12
Sinalesaid		5	13	18
Tyrceg		3	5	8
Farsi (Perseg)		3	2	5
Tsieinëeg (syml)		3		3
Bengaleg	1	2	3	6
Rwmanaidd		2		2
Almaeneg		2		2
Japaneaidd		2		2
Sbaeneg (De America)		2		2
Pashto	214	2	9	225
Arabeg		2		2
Tsieceg		1		1
Wrdw		1		1
Tsieinëeg (traddodiadol)		1		1
Saesneg		2		2
Albaniad	1			1
Amharig	2		13	15
Arabeg	1		4	5
Bwlgaraidd	1		3	4
Mandarin	4			4
Oromo	4		2	6
Rwmanaidd	1			1
Fietnamaidd	1		1	2
BSL			1	1
Hwngaraidd			1	1
Lithwaneg			5	5

Ysgolion

Proffil Llywodraethwyr Ysgolion yn ôl rhyw - Mehefin 2016

Ysgol Gynradd

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	224	38%
Benyw	370	62%
Cyfanswm	594	100%

Ysgol uwchradd

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	73	55%
Benyw	59	45%
Cyfanswm	132	100%

Cyfanswm Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Rhyw	Nifer	%
Gwryw	297	41%
Benyw	429	59%
Cyfanswm	726	100%

Proffil disgyblion ysgol yn ôl cefndir ethnig - Ionawr 2016

Ysgol Gynradd

Allwedd	Nifer disgyblion	%
Gwyn Prydeinig	11312	86.29
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	234	1.78
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth	412	3.14
Gwrthodwyd a Gwag	24	0.18
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	1128	8.60
Cyfanswm	13110	

Ysgol uwchradd

Allwedd	Nifer disgyblion	%
Gwyn Prydeinig	5712	91.38
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	121	1.94
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth	1	0.02
Gwrthodwyd a Gwag	31	0.50
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	386	6.18
Cyfanswm	6251	

Ysgol Arbennig

Allwedd	Nifer disgyblion	%
Gwyn Prydeinig	284	91.32
Unrhyw gefndir gwyn arall (WOTH)	9	2.89
Ni chafwyd unrhyw wybodaeth	0	0.00
Gwrthodwyd a Gwag	0	0.00
Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME)	18	5.79
Cyfanswm	311	

Siop Wybodaeth i leuenctid

Defnyddir yr wybodaeth hon i'n cynorthwyo i ddatblygu ein gwasanaethau gwybodaeth i bobl ifanc.

1. Gwybodaeth

Gwryw	4840	45.8%
Benyw	5737	54.2%
Cyfanswm	10577	

2. Proffil Oedran yn ôl %

11-12	8.0
13-15	35.7
16-19	44.4
20-25	7.5
Dros 25	2.0
Rhiant / Gofalwr	1.5
Oedolyn yn cynrychioli unigolyn ifanc	0.9

3. Dadansoddiad ymholiadau yn ôl %

Teulu, Iechyd, Clinig, Tu allan i oriau	50.0
Pob un arall	50.0

(N.B.1 Clinig a Tu Allan i Oriau yn cyfrif am 19.2% o ymholiadau
N.B.2 Estyn allan [Diwrnodau Iechyd a gwahanol sesiynau] yn cyfrif am 24.2%)

4. Dadansoddiad o 'Bopeth arall' o adran 3 fesul %

Y Rhyngrwyd	8.6
Cefnogi Ffrind	5.5
Arian	4.9
Cyflogaeth a hyfforddiant	2.9
Tai	2.7
Addysg	1.3
Cyfraith a Hawliau	1.4
EHC - Atgyfeiriad	1.5
Profion STI – Atgyfeiriad	1.1
Eirioli	16.2
Pob un arall	3.9
Cyfanswm	50.0

5. Cyfanswm Clinig a Gofrestrwyd yn ôl Rhyw

Gwryw	3875	37.3%
Benyw	6509	62.7%
Cyfanswm	10384	

6. Clinig (O fewn oriau arferol a thu allan i oriau)

Crynodeb Rhyw

Benyw	1970
Gwryw	598
Cyfanswm	2568

Crynodeb Math o Bresenoldeb

Ymweliad cyntaf y flwyddyn ariannol hon (2)	708
Cleient newydd (1)	534
Ail ymweliad (3)	1326
Cyfanswm	2568

Crynodeb Grŵp Oedran

Dan 13 oed	0
13	22
14	94
15	343
16	466
17	468
18	356
19	249
20-24	538

25+	32
Cyfanswm	2568

Teuluoedd yn Gyntaf 2015-16

Cyfanswm cleientiaid o'r holl brosiectau Teuluoedd yn Gyntaf oedd 8916 o bobl:

- Roedd 4070 yn wrywaidd (46%)
- Roedd 4846 yn fenywaidd (54%)
- Roedd 732 (8%) o gefndir Du neu Leiafrif Ethnig
- Roedd 8273 (92%) o gefndir Gwyn Prydeinig
- Roedd 1262 (3%) yn ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n nodi bod ganddynt anabledd

Atgyfeiriadau Trosedd Casineb Wrecsam i Gymorth i Ddiodefwyr 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016

Rhodddwyd gwybod am 104 o droseddau casineb i'r Prosiect Adrodd Trydydd Parti dan arweiniad Cymorth i Ddiodefwyr.

Gwybodaeth am weithwyr - gweler yr Adroddiad Monitro Cydraddoldeb 2014-15

http://www.wrexham.gov.uk/top_navigation/equality.htm#keydocs

Rhestr Termau

BME	Du a chefnidir ethnig lleiafrifol
CAADA	Gweithredu Cydlynol yn erbyn Cam-drin Domestig
CAHMS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed
CD+TRh	Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
EHRC	Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
AEG	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
ESTYN	Arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru
LGBT	Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, neu Drawsrywiol
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth
SEP	Cynllun Cydraddoldeb Strategol
CIS	Cynllun Integredig Sengl
CLILC	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru